PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 18 EBRILL 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Jenkins, Kelloway a/ac Lent |

56 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Carter a'r Cynghorydd Goddard.
Dywedodd y Cynghorydd Jenkins y byddai hanner awr yn hwyr yn cyrraedd.

57 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

58 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

59 : CYNLLUN BUSNES Y GYFARWYDDIAETH CYMUNEDAU, TAI A GWASANAETHAU CWSMERIAID

Croesawyd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles) a'r Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau), Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai a Chymunedau) a Nick Blake (Rheolwr Cymorth Busnes) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i roi datganiad lle dywedodd ei fod yn braf gweld y gwaith sydd wedi'i wneud gyda Byw'n Annibynnol, yn enwedig y ffocws ar leihau derbyniadau i ysbytai, systemau rhyddhau effeithiol a gwaith integreiddio gyda phartneriaid. Cymeradwyodd y Cynghorydd Elsmore y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ar draws y gwasanaethau ataliol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thorne i roi datganiad lle dywedodd bod y rhain yn gynigion cyffrous a oedd eisoes wedi cael croeso gan y Pwyllgor Craffu. Cyfeiriodd y Cynghorydd Thorne at hunan asesiad o berfformiad yn ystod 2017-18 ac roedd hi o'r farn bod y ffigurau yn enwedig o ran digartrefedd yn eithriadol ac roedd hi eisiau diolch i'r holl staff cysylltiedig, y Staff Rheng Flaen ac Uwch Swyddogion.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Gynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid; yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd aelodau pa mor hyderus oedd yr Aelod Cabinet o allu darparu 1000 o gartrefi cyngor newydd erbyn 2022 a dywedodd ei bod yn hyderus iawn. Ychwanegodd swyddogion bod eu ffocws ar y targed hwnnw.

- Cyfeiriodd aelodau at y rheiny sy’n cysgu ar y stryd yn defnyddio adeiladau eiconig a’r argraff mae hynny’n ei roi i ymwelwyr. Gofynnodd Aelodau beth oedd yn cael ei wneud i fynd i’r afael â hyn. Esboniodd yr Aelod Cabinet bod yna safbwyntiau gwahanol ar p’un a ddylid symud cysgwyr ar y stryd neu beidio, gan ychwanegu bod llawer o waith yn cael ei wneud gyda’r Heddlu, yn enwedig mewn perthynas â chardota bygythiol. Ychwanegodd swyddogion bod gan gysgwyr ar y stryd ystod o broblemau cymhleth iawn, mae angen cymorth wedi'i deilwra arnynt, amrywiaeth o ddewisiadau llety megis llety grŵp a byddai’n ddiddorol gweld pa wahaniaeth a gaiff yr ymgyrch ‘Give DIFFerently’.

  Cynhaliwyd trafodaeth am bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng cysgwyr ar y stryd a chardota bygythiol a'r ymgyrch Purple Ash.

- Nododd aelodau fod gan awdurdodau lleol eraill ddull dim goddefgarwch tuag at gardota bygythiol lle mae pobl yn cael eu riportio a’u harestio a gofynnwyd a oedd hyn yn rhywbeth y byddai Caerdydd yn ei ystyried. Esboniodd yr Aelod Cabinet eu bod yn gweithio gyda’r Heddlu a gweithwyr cymorth ar hyn a bod “dull pump cam” yn cael ei lunio i ddelio gyda hyn.

- Cyfeiriodd aelodau at yr Hybiau Ieuenctid a gofynnwyd am eglurhad ar y cyllid. Dywedodd swyddogion eu bod wedi bod yn llwyddiannus o ran cael Cyllid Cyfalaf ar gyfer Hybiau Ieuenctid a hefyd Hyb Ieuenctid Canol y Ddinas Heol Charles ac y byddent yn defnyddio’r gwasanaethau presennol ac yn eu rhoi yn yr adeiladau.

- Nododd aelodau bod y cyfeiriad at y risg diwygio lles / credyd cynhwysol wedi’i restru fel risg sylweddol a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i liniaru’r risg hwnnw. Esboniodd swyddogion ei fod yn risg coch a bod swm enfawr o bobl yn gysylltiedig. I liniaru hyn roedd cyn-hydd o ran lefelau staffio, gweithdrefnau i ddelio ag ôl-ddyledion rhent a llawer o waith paratoi'n cael ei wneud. Fodd bynnag, byddai’n parhau’n risg coch oherwydd bod ffactorau allanol eraill yn gysylltiedig megis landlordiaid yn tynnu allan o’r cynllun, tenantiaid ag anawsterau rhent ac ati. Roedd angen ffocws ar wasanaethau I Mewn I Waith hefyd.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

60 : GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH

Croesawodd y Cadeirydd Barbara Kerridge, Canolfan Gyngor Glan-yr-afon i’r cyfarfod. Amlinellodd Barbara Kerridge ei chyflwyniad i’r Pwyllgor fel a ganlyn:

***Gwasanaethau Cyngor Hawliau Lles Arbenigol yng Nghaerdydd i Bobl Agored i Niwed***

*Canolfan Gyngor Glan-yr-afon;-*

- *Darparu gwasanaethau Hawliau Lles arbenigol ac wedi bod yn darparu gwasanaethau cyngor ers 1975.*

- *Yn meddu ar y Nod Ansawdd Arbenigol Cymorth Cyfreithiol a Chontract Cymorth Cyfreithiol ar gyfer Cyngor Hawliau Lles ers 1997*

- *Rydym yn derbyn y mwyafrif o'n gwaith achos Cyngor Hawliau Lles trwy atgyfeiriadau o wasanaethau a ariennir gan y Cyngor, ond nid ydym yn derbyn cyllid gan Gyngor Caerdydd i gefnogi'r gwaith hwn.*

*Tan 2013 (pan gymerodd Llywodraeth y DU y mwyafrif o Gymorth Cyfreithiol Lles Cymdeithasol y tu allan i'r cwmpas) Canolfan Gyngor Glan-yr-afon oedd â'r Contract Cymorth Cyfreithiol Lles Cymdeithasol mwyaf yng Nghymru. 1500 o achosion arbenigol ar gyfer Budd-dal Lles a Dyledion y flwyddyn. Roedd hyn yn golled fawr o ran gwasanaethau cyngor ar lefel arbenigol i Gaerdydd ac ni chafodd ei ddisodli.*

*Mae gan Ganolfan Gyngor Glan-yr-afon Gontract Cymorth Cyfreithiol ar gyfer yr hyn sydd ar ôl o'r Cymorth Cyfreithiol Lles Cymdeithasol ar gyfer gwaith achos Uwch Dribiwnlysoedd Budd-dal Tai a Lles.*

*Ers Medi 2015 nid yw Canolfan Gyngor Glan-yr-afon wedi cael unrhyw gyllid gan Gyngor Caerdydd, pan gafodd cyllid Cyngor Hawliau Lles o holl adrannau'r Cyngor (Cymunedau a Thai a Gwasanaethau Oedolion) ei roi yng Nghontract Cyngor Hyb contractwr unigol Cymunedau a Thai, ac roedd cyllid Cyngor y Gwasanaethau Plant wedi mynd i'r Contractau Teuluoedd yn Gyntaf.*

***Yn flaenorol roedd Canolfan Gyngor Glan-yr-afon wedi cael cyllid gan:-***

- *Cymunedau a Thai ar gyfer Gwasanaeth Iaith Asiaidd a Drysau Agored*
- *Cymunedau a Thai ar gyfer gwasanaeth canol y ddinas a ddarparwyd o Heol y Bont (un flwyddyn)*
- *Gwasanaethau oedolion ar gyfer gwasanaeth Budd-dal Lles Arbenigol i Ofalwyr*
- *Gwasanaethau Plant dan gyllid Cychwyn Cadarn ar gyfer Hawliau Lles i Deuluoedd â Phlant 4 oed a ieuengach.*

*Mae uno cyllid Cyngor Hawliau Lles ar gyfer nifer o sefydliadau a gwasanaethau pwrpasol yn un pot cyllid wedi arwain at ddiffyg arbenigedd a gwasanaethau Cyngor Hawliau Lles pwrpasol yng Nghaerdydd. Mae'r mathau hyn o wasanaethau yn angenrheidiol i bobl agored i niwed sy'n aml â gofynion mynediad penodol, megis analluu i ymdopi â systemau brysbennu a lefelau gwahanol o gynghorwyr ac aros mewn ciw gyda phobl eraill.*

*Trwy uno'r grantiau Cyngor yn un contract, cyfrannodd y golled hon o ran cyllid at gau Canolfan Gyfraith Caerdydd, gan arwain at gau Uned Hawliau Lles Age Concerns, cau'r Ganolfan Gyngor Somali a cholli gwaith pwrpasol a wnaethpwyd gan y sefydliadau hyn a gadael dim ond cwpl o'r sefydliadau Cyngor Hawliau Lles annibynnol ar ôl, megis Canolfan Gyngor Glan-yr-afon â risg uchel o argyfwng ariannol a chau o bosibl.*

*Mae 80% o wasanaethau gwaith achos Hawliau Lles Cyngor Glan-yr-afon yn cael eu darparu trwy atgyfeiriadau gan weithwyr cymorth a sefydliadau o'r holl sectorau, yn enwedig gwasanaethau a ariennir gan Gyngor Caerdydd. Mae'r rhain ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed, â lefel uchel o salwch Iechyd Meddwl a bywydau anhrefnus, pobl na fyddai'n gallu ymdopi â'r Hyb Cyngor o ran cyrchu gwasanaethau cyngor*

*yno. Felly mae'r bobl agored i niwed hyn yn cael eu hatgyfeirio i Ganolfan Gyngor Glan-yr-afon gan fod y sefydliadau cymorth yn credu mai dyma'r unig sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn cael ei nodi mewn llythyrau atgyfeirio sydd ganddynt ar gyfer amrywiaeth o sefydliadau cymorth i ddangos yr angen hwn.*

*Mae ystadegau Glan-yr-afon yn dangos yn y flwyddyn ddiwethaf, ers i'r Contract Cefnogi Pobl gael ei ddyfarnu i ddim ond 3 sefydliad, Gwalia, Unedig Cymru a Byddin yr Iachawdwriaeth bod y sefydliadau hyn gyda'i gilydd wedi atgyfeirio dros 200 o bobl i Ganolfan Gyngor Glan-yr-afon. A hyn am £200 - £250 yr achos (costau Cymorth Cyfreithiol - ac yn aml heb yr adnoddau priodol ar y gyfradd hon) sef £40,000 i £50,000 o waith achos arbenigol o ran Budd-dal Lles a Dyledion heb unrhyw gyllid penodol ar gyfer y gwaith hwn.*

*Mae nifer o sefydliadau a gwasanaethau eraill megis Llamau, Tŷ Canna, HYB Cyngor, Dewisiadau Tai a Gwasanaethau mewnol y Cyngor megis Gweithwyr Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Prawf hefyd yn atgyfeirio eu defnyddwyr gwasanaeth i Ganolfan Gyngor Glan-yr-afon o wasanaethau a ariennir gan y Cyngor.*

*Mae angen cydnabod y sefyllfa argyfyngus hon ac ariannu gwasanaeth Hawliau Lles arbenigol sy'n ychwanegol a thu allan i'r hyn sy'n bosibl o fewn y gwasanaeth arddull Hyb Canol y Ddinas a ariennir. Yn arbennig gan fod y gwaith achos Hawliau Lles hwn yn hanfodol i ganlyniadau da y gwaith a ddarperir gan wasanaethau allweddol eraill y Cyngor a ariennir ar gyfer pobl agored i niwed. Mae'r Hawliau Lles arbenigol hefyd yn allweddol i'r gwasanaethau hynny a ariennir gan Gyngor Caerdydd sy'n cynnig canlyniadau llwyddiannus i'w defnyddwyr gwasanaeth, h.y. os nad yw cyllid, budd-daliadau a dyled pobl agored i niwed yn cael eu sortio mae argyfwng arall yn y dyfodol yn llawer mwy tebygol – sy'n golygu y byddai angen mwy o gymorth a chostau i wasanaethau eraill a ariennir gan y Cyngor. Mae Hawliau Lles yn atal tlodi ac yn waith ataliol allweddol.*

*Mae Canolfan Gyngor Glan-yr-afon yn deall bod y mwyafrif o wasanaethau cyngor nawr wedi'u tynnu o Teuluoedd yn Gyntaf - oherwydd rheolau Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gwasanaethau Oedolion / Cymdeithasol - er bod cyswllt uniongyrchol rhwng tlodi / cyllid, iechyd a lles, ac yn effeithio ar sefydlogrwydd teuluoedd, - nid yw Hawliau Lles yn eu cylch gorchwyl - nac 'yn fater iddyn nhw'.*

*Ni chafodd yr Adolygiad Cyngor Hawliau Lles Caerdydd a addawyd ac oedd mawr ei angen yn cynnwys safbwyntiau'r holl Ddarparwyr Cyngor (y mae nifer ohonynt wedi cau bellach fel y nodwyd uchod), a oedd yn bodoli ar y pryd, yn ôl cyfarwyddwyd Pwyllgor Craffu y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau (PCGOCh ym mis Tachwedd 2012) ei gyhoeddi. Roedd yr adolygiad hwn ar gyfer Darparwyr Cyngor i weithio â Chyngor Caerdydd yn ystod 2013 i edrych ar anghenion a gofynion o ran datblygu dyfodol gwasanaethau cyngor i Gaerdydd. Yn anffodus ni chafodd yr Adolygiad hwn ei gyflwyno cyn i'r Contract Darparwr Unigol Cyngor ar gyfer y Pecyn Cyngor Hybiau gael ei gyhoeddi a'i gwblhau ym mis Hydref 2013 heb yr Adolygiad. Nid yw Canolfan Gyngor Glan-yr-afon yn dymuno mynd dros yr amgylchiadau o ran pam na ddigwyddodd yr Adolygiad Cyngor hwn, na pham na chafodd y pryderon o'r Adolygiad Cyngor blaenorol gan BDO ar y problemau posibl mewn perthynas â'r model dull HYB canolog eu cydnabod, ond yn hytrach maent eisiau symud ymlaen i sefydlu a chydnabod y problemau a'r anghenion presennol.*

*Mae angen i'r Cyngor gydnabod pe bai toriadau gydag unrhyw ffrydiau cyllid cyngor eraill, - fel sydd bob amser yn bosibl, efallai byddai'n rhaid i sefydliadau Hawliau Lles annibynnol sy'n weddill gau. Pe bai hyn yn digwydd nid oes capasiti na gwasanaethau cyngor eraill yng Nghaerdydd i'r bobl agored i niwed sy'n cael eu hatgyfeirio ar hyn o bryd i Ganolfan Gyngor Glan-yr-afon o wasanaethau a ariennir gan y Cyngor i fynd iddynt. Mae hwn yn waith achos arbenigol ar gyfer bron i 1000 o bobl agored i niwed y flwyddyn o ledled Caerdydd ar gyfer gwaith achos Budd-dal Lles a chodi bron i £2,000,000 o incwm iddynt mewn Budd-dal Lles yn deillio o heriau a Thribiwnlysoedd Apeliadau. Lle caiff problemau Budd-dal Lles, Dyledion a Thai y bobl agored i niwed hyn eu datrys? Os na chaiff problemau ariannol pobl agored i niwed eu datrys mae hyn yn debygol o arwain at gostau pellach i wasanaethau eraill a ariennir gan Gyngor Caerdydd, - megis Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, oherwydd digartrefedd posibl a thôr-teulu gan effeithio ar blant, - canlyniadau gwirioneddol a ymchwiliwyd fel canlyniadau amddifadedd ariannol.*

*Gobeithiwn y gall y Pwyllgor Craffu hwn ymdrin â'r pryderon gwirioneddol hyn. Mae'r sector cyngor angen cymorth i ddarparu'r gwaith achos i bobl agored i niwed, ac hefyd ar gyfer y seilwaith i atal unrhyw golled o ran cyllid sy'n arwain at broblemau ymarferoldeb a chau sefydliadau a fydd yn arwain at golli cyllid cyngor arall a gwasanaethau sydd gan y sefydliadau hynny a darparu ar gyfer pobl Caerdydd. Bydd effaith hyn ar bobl agored i niwed yn ddifrifol iawn.*

Diolchodd y Cadeirydd i Barbara Kerridge am ei chyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau:

- Nododd aelodau y sylwadau o ran y cyngor a ddarperir gan Hybiau, gan nodi bod Hybiau'n gymharol newydd a gofynnodd a oedd Barbara Kerridge wedi ystyried a yw'r ddarpariaeth gyfredol yn gweithio neu p'un a oes angen newid unrhyw beth er mwyn i bobl agored i niwed gael y cyngor sydd ei angen arnynt. Dywedodd Ms Kerridge bod Hybiau yn iawn i bobl sy'n gallu nodi eu problemau eu hunain ac sy'n gallu ymdopi â'r systemau brysbennu mewn Hybiau, fodd bynnag, roedd yn wahanol iawn i bobl agored i niwed – yng Nghanolfan Gyngor Glan-yr-afon mae pobl yn gallu defnyddio proses ymgynghorydd arbenigol ar unwaith heb system brysbennu.

- Nododd aelodau bod y mwyafrif o atgyfeiriadau i Ganolfan Gyngor Glan-yr-afon wedi cael eu gwneud gan sefydliadau eraill a staff Cyngor mewn Hybiau a gofynnodd pa ganran o atgyfeiriadau a gafwyd gan staff y Cyngor mewn Hybiau. Dywedodd Ms Kerridge y gallai gael yr ystadegau hynny a'u rhoi i'r Pwyllgor.

- Nododd aelodau bod Canolfan Gyngor Glan-yr-afon yn cael ei hariannu gan nifer o sefydliadau a gofynnodd pa un oedd fwyaf tebygol o stopio'r cyllid. Cafodd aelodau wybod bod Ymddiriedolaeth Ynni Nwy Prydain sy'n cefnogi Canolfan Gyngor Glan-yr-afon â swm sylweddol, yn adolygu pwy maen nhw'n eu cefnogi, roedd hyn yn fygythiad mawr gan y bydd pobl yn tendro am y cyllid hwn felly roedd risg gwirioneddol ohono'n cael ei stopio.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Bobl a Chymunedau), Carolyne Palmer (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Atal) a Lisa Wood (Rheolwr Gweithredol –Gwasanaethau Ardal – Cyswllt Cyntaf ac Asesu).

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y tystion uchod ar gyflwyniad Barbara Kerridge.

- Dywedodd swyddogion y gallent nodi rhai o'r pwyntiau a godwyd yng nghyflwyniad Ms Kerridge, yn enwedig mewn perthynas â Gwasanaethau Cymorth y Cyngor.
- Nododd swyddogion y pwyntiau a wnaed mewn perthynas â Gwasanaethau Iechyd Meddwl gan nodi bod angen dull cydgysylltiedig.
- Cytunodd swyddogion y gallai fod diffyg gwybodaeth o ran pa wasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac y byddent yn edrych ar hyn.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i roi datganiad lle dywedodd ei bod wedi ymweld ag Ysbyty Llandochau a'r gwasanaeth yno, roedd hi'n credu y bydd y gwaith o'i blaen gyda chydweithwyr Iechyd yn heriol ond mae'n teimlo bod yr amser yn iawn; mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud ac maen bryd newid diwylliant i sicrhau'r canlyniad lles, roedd annibyniaeth yn holl bwysig.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Wybodaeth, Cyngor a Chymorth ac yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd aelodau beth oedd yn cael ei wneud i geisio dod o hyd i bobl yn y gymuned sydd eisiau help ond nid ydynt yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Dywedodd swyddogion nad yw'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn cael ei hysbysebu i'r cyhoedd yn gyffredinol ond ei fod yn ymddangos ar sgriniau mewn meddygfeydd. Mae'r mwyafrif o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael gwybod amdano gan grwpiau ardal / cymuned, canolfannau cyngor, ar lafar ac mewn Hybiau. Esboniodd swyddogion eu bod nhw eisiau dealltwriaeth well o'r galw a sut y bydd yn cael ei ddelio ag ef cyn penderfynu ar ddull i'w hysbysebu i'r cyhoedd.
- Nododd aelodau'r cyfeiriadau at yr angen am newid o ran diwylliant a gostyngiad o ran defnydd amhriodol o amser gweithiwr cymdeithasol. Gofynnodd aelodau pam bod angen y Ddeddf i ddechrau newidiadau o'r fath. Nododd swyddogion bod y Ddeddf yn diffinio'r angen am IAA ond nid yw'n dweud pa mor bell mae'n rhaid iddo fynd, mae Caerdydd yn defnyddio dull cynhwysfawr ac yn dod â gwasanaethau ynghyd, gan gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf ond yn mynd yn bellach na'r angen.

  Ychwanegodd y Cynghorydd Elsmore eu bod wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd yn y blynyddoedd diwethaf, roedd Caerdydd wedi bod yn edrych ar arfer gorau ac ystyriwyd bod angen dull seiliedig ar gryfderau, yn annog pobl i wneud pethau dros eu hunain, cynnwys cymunedau a chanolfannau cymunedol. Ychwanegodd y Cynghorydd Elsmore fod gan y weinyddiaeth gyfredol ddull Un Cyngor, roedd y Ddeddf yn cael rhywfaint o effaith ond mae penderfyniadau a wneir gan y Cyngor a'r hyn a gynigir gan Gaerdydd yn mynd yn llawer pellach na'r hyn sy'n ofynnol.

  Ychwanegodd y Cynghorydd Thorne bod angen i bethau newid, cafwyd problemau gyda blocio gwelyau a dim digon o lefydd mewn cartrefi gofal, pobl yn aros yn yr ysbyty nes bod cynnig cywir ar gael, nid cynnig cartref gofal o angenrheidrwydd ond ystod o wasanaethau. Ychwanegodd y Cynghorydd

Thorne bod y Ddeddf a chyfyngiadau cyllidebol wedi cyfrannu gan fod angen gwneud mwy gyda llai yn yr hinsawdd gyfredol.

- Cyfeiriodd aelodau at Ymholiad Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a'r Gymuned 2015 i 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Ddefnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd', ac yn arbennig Argymhellion 3 a 7, yn gofyn beth oedd yn cael ei wneud. O ran Argymhelliad 3, esboniodd swyddogion bod y ddarpariaeth ar gael a bod angen integreiddio o'r lles lefel isaf, roedd llawer o waith yn cael ei wneud gyda'r Bwrdd Iechyd. Roedd model newydd i'w archwilio a'i ddatblygu ymhellach nawr, mae Caerdydd yn cydymffurfio ond mae eisiau gwneud llawer mwy na hynny.

- O ran Argymhelliad 7 a hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl ar gyfer staff pwynt cyswllt cyntaf, dywedodd swyddogion bod hyfforddiant yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd, gan ei fod yn rhywbeth arbenigol mae'n bwysig buddsoddi amser ac ymdrech iddo. Roedd hefyd yn bwysig edrych ar lwybrau gwahanol ac nid defnyddio meddygon yn unig.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 61 : ESTYNIAD I GONTRACTAU YN YMWNEUD Â'R GWASANAETH CYMORTH BYW I OEDOLION AG ANABLEDD DYSGU

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Bobl a Chymunedau) a Denise Moriarty (Swyddog Cynllunio Arweiniol Strategol, Gwasanaethau Oedolion) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i roi datganiad lle dywedodd bod y brîff hwn yn rhoi cyfle i aelodau glywed yr amgylchiadau o ran pam y cynigiwyd ymestyn y contract.

Cafodd aelodau gyflwyniad ar Ymestyn y Contractau mewn perthynas â'r Gwasanaeth Byw â Chymorth i Oedolion ag Anabledd Dysgu, ac yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan aelodau;

- Nododd aelodau y gost o £16m y flwyddyn, a oedd yn cefnogi 320 o bobl, sy'n gyfwerth â £50k y pen, y flwyddyn, a gofynnodd a oedd hyn yn cynnig gwerth am arian. Nododd swyddogion mai cyfartaledd fesul person oedd y gost yna ond ei fod yn bwysig edrych ar beth oedd yn cael ei gynnwys. Mae gan bobl ystod eang o becynnau cymorth, rhoddwyd rhai enghreifftiau fel cymorth 2:1, cymorth 24 awr yn y cartref. Roedd swyddogion o'r farn ei fod yn gost resymol ar gyfer pecynnau o'r fath ac wrth i'r contract symud ymlaen, byddent yn edrych ar ei gynaladwyedd ym mhob maes.

- Gofynnodd aelodau a yw'r Cyngor erioed wedi darparu'r gwasanaethau hyn yn fewnol a dywedodd swyddogion bod yna Raglen Byw â Chymorth mewnol ar gael ar hyn o bryd. Cafodd aelodau wybod bod hyn yn costio £2miliwn, dros 11 cynllun, yn cefnogi 30 o bobl oedd gyfwerth â £90k y pen. Gallai swyddogion weld sut y gall pobl feddwl bod hyn yn wasanaeth anghyflawn a byddai hyn yn cael ei ystyried wrth i'r contract symud ymlaen.

- Gofynnodd aelodau am fwy o wybodaeth ar yr ardaloedd daearyddol dywedwyd wrthynt y gellid darparu map. Esboniodd swyddogion hefyd fod gan wahanol ardaloedd wahanol gostau hyd yn oed gyda’r un darparwr. Bydd swyddogion yn edrych ar beth sydd angen cael ei adolygu, gan gynnwys ardaloedd daearyddol, wrth i’r contract symud ymlaen.

- Gofynodd aelodau os oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i’r contract a dywedwyd nad oedd unrhyw rai.

- Nododd aelodau bod cael dim ond 2 gŵyn gan 320 o bobl yn dda iawn.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

62 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

16 Mai 2018 am 5.00pm.